DATGANIAD I'R CYFRYNGAU

Please scroll down for English version

22 Ionawr 2016

<u>Alwen Williams, Cyfarwyddwr BT Cymru, yn lansio cyrsiau cyntaf Academi i Mudiad Meithrin</u>

Ddydd Mawrth **26 Ionawr am 2.00pm bydd** cyrsiau newydd **Academi** yn cael eu **lansio gan Alwen Williams, Cyfarwyddwr BT Cymru, yng 'Nghylch Meithrin Academi' yn Swyddfa Mudiad Meithrin ym Mharc Busnes Porth Caerdydd.**

Dywedodd Alwen Williams, Cyfarwyddwr BT Cymru:
"Roedd yn fraint gallu darparu cyngor fel ymgynghorydd ar gychwyn taith Mudiad Meithrin i sefydlu cynllun uchelgeisiol **Academi** 12 mis yn ôl bellach. Mae'n hynod gyffrous gallu lansio'r cyrsiau cyntaf o dan gynllun **Academi** sy'n rhoi cyfle i weithwyr a gwirfoddolwyr cymuned cylchoedd meithrin fanteisio ar y cyfle i ddatblygu eu sgiliau a'u gwybodaeth unrhyw bryd ac o unrhyw le."

Yn dilyn lansiad llwyddiannus **Academi** yn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau gan Brif Weinidog Cymru Carwyn Jones, mae'r Mudiad yn lansio cyrsiau cyntaf sydd ar gael ar-lein, yn lleol ac yng nghylch meithrin hyfforddi **Academi** yng Nghaerdydd. Nod **Academi** yw adnabod talent, datblygu dealltwriaeth a chynyddu gallu.

Mae ystod y cyrsiau sydd ar gael i'w gweld yn y prosbectws newydd. Byddwn yn ychwanegu yn rheolaidd at y cyrsiau hyn gan ymateb i anghenion staff a gwirfoddolwyr y cylchoedd. Mae cynnig **Academi** yn unigryw, cyfleoedd i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth yn rhad ac am ddim drwy ddysgu o unrhyw le ac unrhyw bryd. Ymysg y cyrsiau a gynigir mae cyrsiau ar 'Y Gegin Fwd', 'Y Cyfryngau Cymdeithasol', 'Beth yw'r Cyfnod Sylfaen?' a 'Rheoli Perfformiad'.

Meddai Dona Lewis, Dirprwy Brif Weithredwr Mudiad Meithrin a sefydlwr **Academi**.
"Mae **Academi** yn fenter gyntaf o'i fath i Mudiad Meithrin ac yn darparu cyfleoedd hollol newydd ac unigryw i weithlu a gwirfoddolwyr blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg (sef cymuned Mudiad Meithrin). Mae sefydlu **Academi** yn cefnogi datblygiadau polisi Llywodraeth Cymru i ddatblygu ac uwchsgilio staff y blynyddoedd cynnar dros y 10 mlynedd nesaf.'

Ychwanegodd Dona:
"Rydym yn hynod o ddiolchgar i Alwen Williams am ei chyfraniad wrth i ni ddatblygu syniadau cynnar y fenter gyffrous yma. Mae **Academi** yn perthyn i holl gymuned Mudiad Meithrin ac rydym yn falch o weld y cyrsiau cyntaf yn llenwi'n sydyn."

Mae modd gweld copi electroneg o'r prosbectws ar wefan Mudiad Meithrin neu trwy glicio yma

---------- DIWEDD ----------

Dyma gyferiad ein swyddfa yng Nghaerdydd lle cynhelir y lansiad:
Swyddfa Mudiad Meithrin, Tŷ Cymru, Greenwood Close, Parc Busnes Porth Caerdydd *(Cardiff Gate Business Park),* Pontprennau, Caerdydd,CF23 8RD.

Os hoffech drefnu cyfweliad gyda Dona Lewis, cysylltwch gyda:

Iola Jones, neu Arawn Glyn
Pennaeth Tîm Cyfathrebu a Phartneriaethau Swyddog Marchnata
Ffôn: 01970 639639
Symudol: 07841 452 607

Gwybodaeth Gyffredinol am Mudiad Meithrin

Mudiad gwirfoddol yw Mudiad Meithrin. Ei nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Pan sefydlwyd y Mudiad yn 1971 roedd ffigurau'r Cyfrifiad y flwyddyn honno yn nodi mai 11.3% o blant 3-4 oed yng Nghymru oedd yn gallu siarad Cymraeg. Cafwyd cynnydd graddol ers hynny a braf nodi yng Nghyfrifiad 2011 roedd y ffigwr wedi dyblu i 23.3% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg. Heb os, mae'r gwaith caled a wnaed yn y cylchoedd meithrin a'r cylchoedd Ti a Fi dros y blynyddoedd wedi cyfrannu'n helaeth at sicrhau'r cynnydd yma.
Mae darpariaeth blynyddoedd cynnar y Mudiad yn cynnwys:

- **Cylchoedd Meithrin** - mae tua 550 o gylchoedd meithrin ledled Cymru yn cynnig sesiynau gofal ac addysg ddyddiol ar gyfer plant 2 - 5 mlwydd oed. Mae dros 12,000 o blant yn cael cyfle i ddysgu trwy chwarae yn y Gymraeg yn y cylchoedd meithrin.

- **Cylchoedd Ti a Fi** – mae dros 450 o gylchoedd Ti a Fi ledled Cymru. Dyma gyfle gwych i blant o enedigaeth hyd at oed ysgol a'u rhieni gwrdd unwaith yr wythnos i gymdeithasu a rhannu profiadau ac i chwarae gyda'i gilydd mewn awyrgylch anffurfiol Gymreig.

- **Canolfannau Integredig** - mae ein Canolfannau Integredig yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau cefnogol cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a'u teuluoedd sy'n cynnwys gofal dydd llawn a sesiynol, darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol, hyfforddiant a chyngor i rieni.

- **Meithrinfeydd** – mae ein meithrinfeydd dydd yn cynnig gofal ac addysg o ansawdd i blant dros chwe wythnos oed hyd oed ysgol mewn awyrgylch deniadol, diogel, cyfeillgar a Chymreig.

- **Cynlluniau Cyfeirio** - mae Cynlluniau Cyfeirio'r Mudiad yn cynnig cefnogaeth arbennig i blant gydag anghenion ychwanegol.

- **Cam wrth Gam** – is-gwmni'r Mudiad yw Cam wrth Gam sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal hyfforddiant ym maes gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg.

- **Dewin** – cymeriad unigryw'r Mudiad sy'n ffrind i holl blant y cylchoedd meithrin ac sy'n eu helpu a'u hybu i siarad Cymraeg.

- **Siop Dewin a Doti** – is-gwmni'r Mudiad yw Siop Dewin a Doti sy'n gyfrifol am gynhyrchu a gwerthu llyfrau ac adnoddau Cymraeg a dwyieithog sy'n addas i'r blynyddoedd cynnar. Gellir archebu'r adnoddau ar-lein trwy'r wefan – **www.siopdewinadoti.cymru**

Mae dros 220 o staff cyflogedig gan Mudiad Meithrin yn genedlaethol a thros 1,500 o staff yn gweithio yn y cylchoedd meithrin. Mae Swyddogion Datblygu'r Mudiad yn gweithio'n lleol yn eu siroedd er mwyn cynnig arweiniad a chyngor ymarferol i staff y cylchoedd, gwirfoddolwyr a rhieni.

Mudiad Meithrin - arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

www.meithrin.cymru

Media Release / DATGANIAD I'R CYFRYNGAU

22 January 2016

Alwen Williams, Director of BT Wales launches Academi's first courses for Mudiad Meithrin

On Tuesday **26 January at 2.00pm Alwen Williams, Director of BT Wales** will launch **Academi's** first courses **at 'Cylch Meithrin Academi' in Mudiad Meithrin's office in Cardiff Gate Business Park, Cardiff.**

Alwen Williams, Director of BT Wales said:
"It was a privilege to be able to provide advice as a consultant at the beginning of the journey to establish an ambitious plan by Mudiad Meithrin to set up **Academi** 12 months ago. It is very exciting to be able to launch the first courses under **Academi** which gives workers and volunteers in Mudiad Meithrin's community the chance to develop their skills and knowledge at any time and from anywhere."

Following **Academi's** successful launch at the National Eisteddfod in Montgomeryshire and the Marches by the First Minister Carwyn Jones, the Mudiad are launching **Academi**'s first courses – some are available online, others are offered at local venues and at 'Cylch Meithrin **Academi**' located at Mudiad Meithrin's offices in Cardiff. The aims of **Academi** are to identify talent, develop understanding and increase ability.

The range of courses that are available are included in the new prospectus. New courses will be added to the prospectus on a regular basis depending on the needs and requirements of the staff and volunteers at the 'Cylchoedd Meithrin' (Welsh-medium playgroups). What **Academi** has to offer is unique, an opportunity to develop skills and knowledge free of charge by learning from anywhere and at any time. Amongst the courses offered are 'The Mud Kitchen', 'The Social Media', 'What is the Foundation Phase?' and 'Staff Performance Management'.

Dona Lewis, Mudiad Meithrin's Deputy Chief Executive and the founder of **Academi** said:
"**Academi** is the first initiative of its kind by Mudiad Meithrin, it provides new and unique opportunities for the staff and volunteers who work in our Welsh-medium early years provisions (Mudiad Meithrin's community). Establishling **Academi** supports the development of the Welsh Government policy to develop and upskill staff in the early years sector over the next 10 years.'

Dona added:
"We are very grateful to Alwen Williams for her contribution as we developed the early ideas of this exciting scheme. **Academi** belongs to the whole community of Mudiad Meithrin and we are pleased to see that the first courses are filling up quickly."

An electronic copy of the prospectus can be found on the website of Mudiad Meithrin or by clicking here.

---------- END ----------

The launch will be held at Mudiad Meithrin Office in Cardiff at the address below:
Swyddfa Mudiad Meithrin, Tŷ Cymru, Greenwood Close, *Cardiff Gate Business Park,* Pontprennau, Cardiff,CF23 8RD.

For further information or to arrange an interview with Dona Lewis please contact:

Iola Jones
Marketing Director
Phone: 01970 639639
Mobile: 07841 452 607

or

Arawn Glyn
Marketing and Fundraising Officer

General Information about Mudiad Meithrin

Mudiad Meithrin is a voluntary organisation. It aims to give every young child in Wales the opportunity to benefit from early years services and experiences through the medium of Welsh. When Mudiad Meithrin was established in 1971 the Census figures noted that year that the number of children aged 3-4 years old who could speak Welsh was 11.3%. We saw a gradual increase in this figure over the next decades and it's pleasing to note that by the 2011 Census this figure had doubled to 23.3% of 3-4 year old being able to speak Welsh. Without a doubt, the hard work at the *cylchoedd meithrin* and *cylchoedd Ti a Fi* has played a vital part in ensuring this increase in the number of young Welsh speakers in Wales.

The Mudiad's early years provision includes:

- **Cylchoedd Meithrin** - there are approximately 550 *cylchoedd meithrin* (Welsh-medium playgroups) across Wales offering daily sessional care and education for children 2 – 5 years old. Over 12,000 children are given the opportunity to learn through play through the medium of Welsh at the cylchoedd meithrin.

- **Cylchoedd Ti a Fi** – there are over 450 *cylchoedd Ti a Fi* across Wales. These groups offer children from birth through to compulsory school age and their parents an excellent opportunity to meet once a week to socialise, share experiences and to play together in an informal Welsh atmosphere.

- **Integrated Centres –** the Mudiad's Integrated Centres offer a wide range of services through the medium of Welsh for children and their families, which include sessional and full day care, before and after school provision, training and advice for parents.

- **Day Nurseries –** the Mudiad's nurseries provide quality full day care and early education for children from six weeks old to school age in an attractive, safe, friendly and Welsh atmosphere.

- **Referral Schemes –** the Mudiad's Referral Schemes offer special support to children with additional needs.

- **Cam wrth Gam** – Cam wrth Gam is a subsidiary of Mudiad Meithrin and is responsible for developing and delivering training in early years care and education through the medium of Welsh.

- **Dewin** – Mudiad Meithrin's unique character much loved by the children, and used in the cylchoedd to help and encourage children to speak Welsh.

- **Siop Dewin a Doti** – is a subsidiary of Mudiad Meithrin responsible for producing and selling Welsh early years books and resources. The resources can be purchased on-line via the website - www.siopdewinadoti.co.uk

Mudiad Meithrin employs over 200 staff nationally and over 1,500 members of staff work at the cylchoedd meithrin. Mudiad Meithrin's Support Officers work at a local level in each county offering guidance and practical advice to the cylchoedd staff, volunteers and parents.